CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

COFNODION o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Goffa Goronwy Owen, Benllech ar Nos Lun, 11 Rhagfyr, 2017 am 7.00 o'r gloch.

PRESENNOL Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mrs S Edwards, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mr I Williams, (Benllech B).

130 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y canlynol :- Mr J Cotterell, (Benllech A), Mr P Day, (Benllech B), Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr G Owen, (Llanbedrgoch).

131 DATGANIADAU O DDIDDORDEB.

Ni dderbyniwyd unrhyw Ddatganiadau o Ddiddordeb.

132 COFNODION.

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar y 27ain o Dachwedd 2017.

LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

133 LLWYBR CYHOEDDUS YM MRYNTEG.

Cafwyd ebost gan Gyngor Sir Ynys Mon yn cyfeirio at Lwybr Cyhoeddus 72 a oedd yn cychwyn ger Garnedd Rhos, Ffordd Llangefni ac yn darfod ger Eugrad ar lon Brynteg i Lanerchymedd. Roedd aelod o'r cyhoedd wedi cwyno fod gor dyfiant yn ei gwneud yn amhosib i gerdded y llwybr. Gorchmynodd y Cyngor Sir dorri'r llwybr ac fe wnaed y gwaith angenrheidiol ar gost o £300. Ar ol cwblhau'r gwaith darganfyddwyd fod dwy ran o dair o'r llwybr ym mhlwyf Llaneugrad er mai cyfran fechan o'r gwaith oedd ar y darn hwn o'r Llwybr.

PENDERFYNWYD – ar ol trafodaeth gofynnwyd i'r Clerc gysylltu a Chlerc Llaneugrad i ofyn am gyfraniad tuag at y gost o dorri'r llwybr.

134 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL.

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

GOHEBIAETH

135 LLYWODRAETH CYMRU – GWARIANT ADRAN 137

Cyflwynwyd er gwybodaeth – llythyr gan Lywodraeth Cymru yn hysbysu mai £7-86 yw'r swm priodol ar gyfer 2018/19 at ddibenion Adran 137 (4) (a) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned yng Nghymru.

136 LLYWODRAETH CYMRU – FFIOEDD CLADDU AC AMLOSGI PLANT.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y bwriad i ddiddymu ffioedd claddu ac amlosgi plant yng Nghymru.

137 FFORWM CYSWLLT CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o'r Fforwm a gynhaliwyd nos Fawrth 13 Mehefin 2017 yn Siambr y Cyngor, Llangefni am 7-00 yr hwyr.

138 GRWP RHANDDEILIAID CYNGHORAU TREF A CHYMUNED.

Cyflwynwyd er gwybodaeth – cofnodion cyfarfod o'r Grwp Rhanddeiliaid a gynhaliwyd ar 9 Tachwedd am 5-30 yr hwyr

TALIADAU A CHYFRIFON

139 BILIAU.

Edwards Accounting	Paratoi gwybodaeth	£30-00
Eira Fon Parry	Gwasanaeth cyfieithu	£56-00
Lingo Cyf	Hurio offer cyfieithu	£36-00
Anghenion Swyddfa Gwynedd	Defnydd Swyddfa	£28-63
Photostatic	Llungopio	£10-91
Scottish Power	Trydan	£26-02
White Self Storage	Rhent Uned	£864-00
CCTV Services	Cyflenwi Ysgol Goronwy Owen	£10856-64

140 CYFRIFON

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan Gynllun Dirprwyo cyfredol y Cyngor) yn Nhachwedd 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.

141 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2017 i ddiwedd Tachwedd 2017.

PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion.

MATERION CYFFREDINOL

142 PLAC COFFA.

Cafwyd cais gan Mr Keith Parry i osod plac coffa ar sedd ger y "Ship Inn" yn Nhraeth Coch er cof am ei gyfaill Mr David William Pritchard a fu farw yn 2016. Roedd Mr Parry yn awyddus i gael yr eirfa hon ar y Plac " Special memories of David William Pritchard (Snowy) 1960 – 2016. The Days of our Lives".

PENDERFYNWYD – i gytuno a'r eirfa uchod.

143 CYLLIDEB 2018 / 2019.

Gan fod amser cytuno cyllideb a gosod y presept ar gyfer 2018/2019 yn nesau trafodwyd yn gyffredinol wariant ar flaenoriaethau'r Cyngor. Eglurodd y Clerc fod gwariant ar gyflogau yn mynd i gynyddu gan fod oriau y Clerc yn ymestyn, hefyd yn dilyn cymeryd drosodd ofal y cyfleusterau cyhoeddus ym Menllech o'r 1 Ebrill 2018 bydd yn rhaid cyflogi gofalwr ar y ddau doiled yn y sgwar a'r Traeth. Hefyd mae angen sefydlu a phaentio terfynau Caer Berllan.

Fodd bynnag bydd nifer o eitemau gwariant 2017/2018 yn cael eu diddymu, e.e. Etholiadau £2500, Teledu Cylch Cyfyng £8000, Llyfrgell / Toiledau £10,000.

Yn ogystal a'r eitemau uchod roedd yr aelodau yn awyddus iawn i sicrhau maes chwarae gyda gwyneb bob tywydd i ieuenctid yr ardal. Yn anffodus nid oes cyfleusterau chwaraeon ym Menllech a phenderfynwyd fod hyn yn flaenoriaeth gyntaf y Cyngor Cymuned yn ystod 2018/2019.

Mae llawer yn ddibynnol ar gael y safle delfrydol i gyfleuster o'r fath ac yn y cyswllt hwn mae trafodaeth gyda Cymdeithas Adloniant a Chwaraeon Benllech yn holl bwysig gan fod safle yr hen gyrtiau tennis yn ddelfrydol. Mae gwahoddiad wedi ei estyn i ddau o Swyddogion y Gymdeithas fynychu cyfarfod Ionawr o'r Cyngor Cymuned.

CYNLLUNIO

144 CEISIADAU.

PENDERFYNWYD ar y ceisiadau cynllunio o flaen y Cyngor fel a ganlyn :-

1. Caniatau :

30C819	Pen Tywyn, 59 Bay View Road, Benllech.

145 PENDERFYNIADAU.

Adroddwyd er gwybodaeth – penderfyniadau cynllunio diweddar Cyngor Sir Ynys Mon.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8-00 o'r gloch yr hwyr.